

**FERSIWN HAWDD EI DDEALL**

Cyhoeddwyd Mawrth 31ain 2025




Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service

# Cynllun Gwella Strategol 2025-2040

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru.
Fersiwn hawdd ei darllen yw hi o Gynllun Gwella Strategol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru 2025-2040.

Dewrder i weithredu,
Tosturi i ofalu

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn saesneg

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon




Mae hon yn ddogfen hawdd ei darllen. Er hynny gallai fod angen help arnoch chi i'w darllen. Gofynnwch am help gan rywun rydych chi'n ei adnabod.



Efallai bydd geiriau **mewn print bras** yn anodd eu deall. Cewch wirio ystyr yr holl eiriau mewn glas ar dudalen 22.

Yn y ddogfen hon, mae rydym yn golygu **Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru**.
Mae mwy o wybodaeth ar gael:

Gwefan: www.decymru-tan.gov.uk

Ffôn: 01443 232000

E-bost: hys@decymru-tan.gov.uk




**Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru** wnaeth y ddogfen hon yn un hawdd ei darllen gan defnyddio **Ffotosymbolau**. Dywedwch wrthym beth yw eich barn am y fersiwn hawdd ei ddarllen hwn trwy anfon e-bost atom:
hys@decymru-tan.gov.uk



# Cynnwys


**Tudalen**

**Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon ....... 2**

**Cyflwyniad....... 4**

**Sut gwnaethon ni'r cynllun hwn ....... 6**

**Beth rydym yn bwriadu ei wneud 2025 - 2024 ....... 7**

1. Gweithio yn y ffordd orau ....... 7
2. Atal argyfyngau ....... 9
3. Diogelu ....... 12
4. Ymateb i argyfyngau ....... 13
5. Gofalu am ein hamgylchedd ....... 15
6. Cyfathrebu'n well ....... 16
7. Gwerthfawrogi ein pobl ....... 17
8. Defnyddio technoleg yn dda ....... 19

**Fformatau amgen ....... 20**

**Dweud eich dweud ....... 21**

**Geiriau anodd ....... 22**

# Cyflwyniad

Ni yw Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru



Rydyn ni am gadw pobl De Cymru’n ddiogel rhag tanau a pheryglon eraill.



Rydym yn helpu pobl trwy ddiffodd tanau.
Rydym hefyd yn helpu gyda phroblemau eraill fel damweiniau ar y ffordd a phobl mewn perygl yn y dŵr.



Mae’r ddogfen hon yn sôn am y pethau rydym yn bwriadu gwneud rhwng 2025 a 2040



Mae’n dweud wrthych beth rydym am ei wneud i wella ein gwasanaeth.





Rydym wedi gwneud y cynllun hwn drwy weithio gyda’n staff, **cymunedau** a phartneriaid.

> **Cymuned/Cymunedau**
> Grŵp o bobl sy’n byw neu’n gweithio yn yr un ardal.




Mae eich barn yn bwysig i ni. Maen nhw’n helpu ni wneud cynlluniau gwell ar gyfer y dyfodol.

# Sut y gwnaethom y cynllun hwn



Rhwng 31ain Hydref 2024 a 24ain Ionawr 2025, gofynnom i'r cyhoedd, ein staff a'n partneriaid am ein cynlluniau. Gofynnom y cwestiynau hyn iddynt:

- Ydych chi wedi darllen ein Cynllun Gwella Blynyddol?
- Gofynnom am gytundeb yn erbyn ein 8 maes Cynllun
- Beth allwn ni ei wneud yn well i wella ein **diwylliant**?

> **Diwylliant Gwaith**
> Dyma sut mae pobl yn meddwl ac yn gweithredu yn y gwaith. Mae diwylliant gwaith da yn helpu creu'r lleoliad cywir i bobl wneud eu gwaith yn dda.

- Sut mae cael **diwylliant** gwell?
- Unrhyw adborth arall.




Cawsom 65 ymateb. Siaradom hefyd gydag 80 o staff o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru mewn swyddi gwahanol. Helpodd y rhain ni i wneud y cynllun hwn.



# Beth rydym yn bwriadu ei wneud 2025 – 2040



## 1. Gweithio yn y ffordd orau.

Cydweithio i fod yn dda yn yr hyn a wnawn. Byddwn yn:



- Edrych ar sut rydym yn gwneud ein gwaith i ddod o hyd i ffyrdd o'i wella.



- Cael cynlluniau i
  - o Atal **argyfyngau** rhag digwydd yn y lle cyntaf.

> **Argyfwng/Argyfyngau**
> Argyfwng yw pan fydd rhywbeth yn digwydd megis tân, llifogydd neu ddamwain cerbyd ac mae angen i ni weithredu'n gyflym i unioni pethau.



  - o Ymateb i **argyfyngau**.



  - o **Gwarchod** bywyd ac adeiladau.

> **Diogelu/Amddiffyn**
> Cadw rhywun neu rywbeth yn ddiogel.



## 1. Gweithio yn y ffordd orau.



- Gweithredu ar ddeddfau a materion newydd sy'n effeithio arnom ni.



- Ei gwneud yn fwy diogel i bobl sy'n byw yn ein hardal.



- Edrych ar ddewisiadau ar gyfer yr adeilad lle rydym yn hyfforddi ein diffoddwyr tân.



- Adolygu'r dogfennau mae ein staff yn defnyddio i gyflawni eu swyddi.



- Creu tîm fydd yn helpu gwella ansawdd ein gwaith.

## 2. Atal argyfyngau

**Atal/Yn atal**
I stopio rhywbeth rhag digwydd i'ch cadw'n ddiogel.




Dod o hyd i ffyrdd o leihau **argyfyngau** fel bod llai o angen galw am ein cymorth.



- Lleihau tanau yn y cartref wrth.




  - Ddefnyddio gwybodaeth gwell



  - Rhoi cyngor i'r bobl rydym yn eu gwasanaethu



  - Dewis y rhai sydd fwyaf mewn perygl yn gyntaf.

## 2. Atal argyfyngau






Lleihau nifer y marwolaethau a’r bobl sy’n cael eu hanafu’n ddifrifol mewn damweiniau ffordd wrth.



- Ddefnyddio gwell offer, cyfarpar a gwybodaeth



- Rhoi cyngor i bobl iau




- Lleihau nifer y tanau sy’n cael eu cynnau ar bwrpas wrth.



- Weithio gyda’r bobl sy’n byw mewn ardaloedd lle mae tanau’n cael eu cynnau’n fwriadol



- Gweithio’n well gyda’n partneriaid **gwasanaethau brys**



## 2. Atal argyfyngau






- Gwella diogelwch mewn ac o gwmpas dŵr wrth.



- Weithio’n well gyda’n partneriaid **gwasanaethau brys**



- Cefnogi busnesau a’r cyhoedd sy’n byw ac yn gweithio ger dŵr.



## 3. Diogelu

Canolbwyntion ni ar **ddiogelu** bywyd ac eiddo.

Byddwn yn:




- Rhoi mwy o wybodaeth i ddiffoddwyr tân am adeiladau a darparu gwell offer i leihau anafiadau a marwolaethau.



- Gweithio gyda'n partneriaid i weld pa waith sydd ei angen i wneud tai aml-lawr yn fwy diogel.



- **Amddiffyn** busnesau trwy logi mwy o staff i gadw eu hadeiladau a'u staff yn ddiogel.



## 4. Ymateb i **argyfyngau**

Sicrhau ein bod yn ymateb yn gyflym pan fy dwch ein hangen.

Byddwn yn:



- Ceisio cyrraedd **achosion brys** yn gynt gan ddefnyddio gwybodaeth well. Byddwn yn gosod ein hoffer a **cherbydau** pwysicaf yn y mannau cywir i ymateb yn well.

> **Cerbydau**
> Ceir, faniau, beiciau modur, tryciau ac injans tân



- Edrych ar nifer y peiriannau tân rydym yn danfon at bob math o **argyfwng.**



- Edrych ar wella niferoedd ein diffoddwyr tân **Ar Alwad** a'u argaeledd.

> **Ar Alwad**
> Diffoddwyr tân sy'n cael eu galw pan fydd eu hangen

## 4. Ymateb i **argyfyngau**



- Dysgu gan **argyfyngau** rydym yn mynychu I'n helpu i fod yn well yn y dyfodol




- Lleihau'r nifer o weithiau rydym yn danfon peiriannau tân at **alwadau diangen**. Bydd yr amser a arbedir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer hyfforddi staff a lleihau risgiau ar gyfer y meysydd rydym yn eu gwasanaethu

> **Galwadau Ffug**
> Galwadau diangen yw pan fyddwn yn mynd i argyfwng ond ar ôl cyrraedd does dim argyfwng.



- Gweithio gyda phartneriaid a **gwasanaethau** brys eraill i ymarfer sut rydym yn ymateb i ddigwyddiadau mawr er mwyn I ni wenud ein swyddi'n well.

> **Gwasanaethau Brys**
> Gwasanaethau i alw mewn argyfwng megis yr Heddlu, Tân ac Achub ac Ambiwlans.



## 5. Gofalu am ein **hamgylchedd**

Gwneud ein gwaith mewn ffordd sy'n helpu'r blaned.

> **Amgylchedd**
> Yr amgylchedd yw lle rydym yn byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr, yr awyr a phopeth sy'n byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid a physgod.

Byddwn yn:




- Cyflwyno ffyrdd newydd o weithio i gyflwyno'r hyn rydym yn gwneud i **ddiogelu** ein planed.




- Diweddaru ein **Cynllun Lleihau Carbon.**

> **Cynllun Lleihau Carbon**
> Y cynlluniau sydd gennym i ddangos sut byddwn yn gofalu am ein planed.




- Cael cynlluniau **amgylcheddol** tymor byr, canol a hir



## 6. Cyfathrebu'n well

Gwella **cyfathrebu** â staff, partneriaid a **chymunedau**.

> **Cyfathrebu**
> Mae cyfathrebu yn golygu sut rydym yn rhoi gwybodaeth i bobl. Mae'n cynnwys pethau fel siarad, ysgrifennu, digwyddiadau, fideos a chyfryngau cymdeithasol.

Byddwn yn:




- Creu **cynllun Cyfryngau a Chyfathrebu** newydd.

> **Cyfryngau a Chyfathrebu**
> Ffyrdd i rannu gwybodaeth fel teledu, radio, papurau newydd, a'r rhyngrwyd




- Gwneud ein dogfennau yn haws i'w darllen.



- Gweithio gyda phobl ifanc a'u hysbysu am beryglon tân, dŵr a ffyrdd i'w helpu i ddeall y risgiau'n well.





## 7. Gwerthfawrogi ein pobl

Cefnogi'r bobl **amrywiol** sy'n gweithio i ni a'u hyfforddi'n dda.

> **Amrywiol**
> Mae amrywiol yn golygu nad ydym i gyd yr un peth. Er enghraifft, mae pobl yng Nghymru'n:
>
> - dod o gefndiroedd a diwylliannau gwahanol
> - meddu ar wahanol alluoedd
> - credu pethau gwahanol
> - meddu ar wahanol hunaniaethau rhywiol
> - gwneud dewisiadau gwahanol ynglŷn â sut maent yn byw eu bywydau
> - oedrannau gwahanol.

Byddwn yn:



- Cyflogi mwy o ddiffoddwyr tân a gofalu am eu hiechyd a'u hopsiynau swyddi yn y dyfodol i sicrhau eu bod yn aros gyda'r gwasanaeth.



- Sicrhau bod yr holl staff yn ymddwyn yn gywir.



- Recriwtio mwy o staff yn ein tîm diogelwch tân i fusnesau i **amddiffyn** adeiladau a phobl yn Ne Cymru yn well.

## 7. Gwerthfawrogi ein pobl



- Hyfforddi ein staff yn y canllawiau **diogelu** Cymraeg newydd.

> **Diogelu**
> Diogelu pobl ifanc ac oedolion rhag niwed a chamdrin. Sicrhau eu bod yn iach ac yn ddiogel.



- Cynnig mwy o hyfforddiant a ffyrdd gwell o weithio i staff Diogelwch **Cymunedol** i wella'r ffordd maen nhw'n cwblhau eu gwaith.



- Creu mwy o hyfforddiant, datblygiad a chyfleoedd i'n Staff gan gynnwys ein Cadetiaid Tân.



- Gwella iechyd a diogelwch diffoddwyr tân trwy ddysgu o adroddiadau a gwybodaeth a gyhoeddir






## 8. Defnyddio technoleg yn dda

Defnyddio **technoleg** a gwybodaeth well i wella ein gwasanaeth i chi

> **Technoleg**
> Offer, dyfeisiau a pheiriannau yw'r rhain sy'n ein helpu i ddatrys problemau a gwneud ein bywydau yn haws. Er enghraifft, ffonau clyfar, cyfrifiaduron a'r rhyngrwyd.

Byddwn yn:



- Sicrhau bod gan ddiffoddwyr tân wybodaeth risg ar gyfer pob **argyfwng** maen nhw'n mynychu.



- Prynu system newydd i helpu ein Hadran Diogelwch Rhag Tân i Fusnesau i fod yn well yn yr hyn maen nhw'n gwneud.



- Adolygu'r **dechnoleg** rydyn ni'n ei defnyddio i ymweld â busnesau.



- Creu gwell hyfforddiant i arweinwyr.

## 8. Defnyddio **technoleg** yn dda




- Datblygu gwahanol ffyrdd o weithio a meddwl am sut rydym yn defnyddio **technoleg** i wella ein gwasanaeth.




- Adolygu ein systemau gwybodaeth, cyfathrebu a **thechnoleg** i'w gwneud yn well nawr i'r  dyfodol.




## Fformatau amgen

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn iaith neu fformat gwahanol, megis Braille neu sain, mae croeso i chi gysylltu â ni.





## Dweud eich dweud.

Rydym eisiau clywed eich barn am ein gweithgareddau a gwybodaeth. Bydd hwn yn ein helpu i wella ein gwasanaethau.



**Ysgrifennwch atom:**

Perfformiad, Cynllunio a Risg
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View
Llantrisant
CF72 8LX.

**Anfonwch e-bost:** hys@decymru-tan.gov.uk

**Galwch ni:** 01443 232000




**Gwefan:** www.decymru-tan..gov.uk

**Facebook:** @TanDeCymru

**X:** @TanDeCymru

**Instagram:** @sw_fire_and_rescue




Gallwch gysylltu â ni yn Gymraeg neu Saesneg.
Byddwn yn ateb yn yr iaith a ddefnyddioch chi.

# Geiriau anodd

**Cynllun Lleihau Carbon**
Y cynlluniau sydd gennym i ddangos sut byddwn yn gofalu am ein planed.

**Cyfathrebu**
Mae cyfathrebu yn golygu sut rydym yn rhoi gwybodaeth i bobl. Mae'n cynnwys pethau fel siarad, ysgrifennu, digwyddiadau, fideos a chyfryngau cymdeithasol..

**Cymuned/Cymunedau**
Grŵp o bobl sy'n byw neu'n gweithio yn yr un ardal.

**Amrywiol**
Mae amrywiol yn golygu nad ydym i gyd yr un peth. Er enghraifft, mae pobl yng Nghymru'n:

- dod o gefndiroedd a diwylliannau gwahanol
- meddu ar wahanol alluoedd
- credu pethau gwahanol
- meddu ar wahanol hunaniaethau rhywiol
- gwneud dewisiadau gwahanol ynglŷn â sut maent yn byw eu bywydau
- oedrannau gwahanol.

**Argyfwng/Argyfyngau**
Argyfwng yw pan fydd rhywbeth yn digwydd megis tân, llifogydd neu ddamwain cerbyd ac mae angen i ni weithredu'n gyflym i helpu.



**Gwasanaethau Brys**
Gwasanaethau i alw mewn argyfwng megis yr Heddlu, Tân ac Achub ac Ambiwlans.

**Amgylchedd**
Yr amgylchedd yw lle rydym yn byw. Mae e'n cynnwys y tir, y môr, yr awyr a phopeth sy'n byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid a physgod.

**Galwadau Ffug**
Galwadau diangen yw pan fyddwn yn mynd i argyfwng ond ar ôl cyrraedd does dim argyfwng.

**Cyfryngau a Chyfathrebu**
Ffyrdd i rannu gwybodaeth fel teledu, radio, papurau newydd, a'r rhyngrwyd

**Ar Alwad**
Diffoddwyr tân sy'n cael eu galw pan fydd eu hangen.

**Diogelu/Amddiffyn**
Cadw rhywun neu rywbeth yn ddiogel.

**Atal/Yn atal**
Stopio rhywbeth rhag digwydd i'ch cadw'n ddiogel.

**Diogelu**
Diogelu pobl ifanc ac oedolion rhag niwed a chamdrin. Sicrhau eu bod yn iach ac yn ddiogel.

**Technoleg**
Offer, dyfeisiau a pheiriannau yw'r rhain sy'n ein helpu i ddatrys problemau a gwneud ein bywydau yn haws. Er enghraifft, ffonau clyfar, cyfrifiaduron a'r rhyngrwyd.

**Cerbydau**
Ceir, faniau, beiciau modur, tryciau ac injans tân

**Diwylliant Gwaith**
Dyma sut mae pobl yn meddwl ac yn gweithredu yn y gwaith. Mae diwylliant gwaith da yn helpu creu'r lleoliad cywir i bobl wneud eu gwaith yn dda.